

STEPHEN, EDWARD (JONES) ('Tanymarian '; 1822 - 1885);

**Enw:** Edward (Jones) Stephen

**Ffugenw:** Tanymarian

**Dyddiad geni:** 1822

**Dyddiad marw:** 1885

**Rhyw:** Gwryw

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth; Perfformio; Barddoniaeth

**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd mewn tŷ o'r enw Rhydysarn, yng nghwr uchaf dyffryn Maentwrog, Sir Feirionnydd, a chofnodir ei fedyddio yn eglwys y plwyf, Ffestiniog, 15 Rhagfyr 1822. Ei enw ydoedd Edward Jones, ond wedi mynd i'r coleg, a chael fod yno efrydydd o'r un enw, ychwanegodd yntau Stephen at ei enw, sef enw ei daid - Stephen Jones. Llithrodd y Jones o'r enw, ac adwaenid ef dan yr enw Edward Stephen. Yr oedd ei dad yn ganwr gyda'r tannau, a'i fam yn gantores dda. Symudodd y teulu i Benmount Bach, ac wedi hynny i Ty'maes, Llan Ffestiniog. Addysgwyd ef yn ysgol Penralltgoch, a phrentisiwyd ef yn ddilledydd gyda'i frawd William. Bu'n gweithio ei grefft gyda Joseph Jones, a oedd yn gerddor da, a chafodd hyfforddiant cerddorol ganddo. Yn 18 oed dechreuodd bregethu yn eglwys Saron (Annibynwyr), Llan Ffestiniog. Yn 1843 aeth i Goleg Annibynwyr y Bala. Tra bu yn y coleg, ymroddodd i ddysgu cerddoriaeth a chyfansoddodd amryw ddarnau. Yn 1847 urddwyd ef yn weinidog eglwys Annibynnol Horeb, Dwygyfylchi, Penmaenmawr; bu yno am 10 mlynedd, a daeth yn enwog trwy Gymru fel pregethwr, bardd, darlithydd, llenor, a cherddor.

Yn Nwygyfylchi y cyfansoddodd yr oratorio 'Ystorm Tiberias,' a cheir y dyddiadau canlynol wrth y llawysgrif - 'Ionawr 28, 1851 (dechreuwyd), a Mai 28, 1852 (gorffennwyd).' Dug allan y gwaith yn 1855 (y cyfanwaith cyntaf a gyfansoddwyd gan Gymro) mewn saith o rifynnau, a daeth argraffiad diwygiedig allan yn 1887. Rhoddwyd perfformiadau o'r gwaith mewn llawer o ardaloedd Cymru, a bu'r cytganau yn destunau yr eisteddfodau am flynyddoedd. Yn 1856 derbyniodd alwad yn weinidog eglwysi Bethlehem a Carmel, Llanllechid. Yn 1858 cyfansoddodd 'Requiem' goffadwriaethol i [John Jones](#), Talysarn. Yn 1859 gwnaed ef yn olygydd *Cerddor y Cysegr*; yn 1868 cyhoeddwyd *Llyfr Tonau ac Emynau* ganddo ef a'r [Parch. J. D. Jones](#), ac yn 1879 *Atodiad* ganddo ef ei hunan i'r *Llyfr Tonau ac Emynau*. Ysgrifennodd lawer o ysgrifau i'r *Cronicle* a'r *Dysgedydd* ar ganiadaeth. Bu'n olygydd *Greal y Corau* o 1861 (Ebrill) hyd y rhifyn diwethaf (Mai 1863). Cyfansoddodd anthemau, a bu 'Llawen floeddiwch i Dduw,' 'Wrth afonydd Babilon,' a 'Disgwylied Israel,' yn boblogaidd. Cyfansoddodd amryw donau hefyd, ac erys 'Tanymarian' yn un o'r tonau gorau.

Yr oedd galw mawr arno fel datganwr a chanai ganeuon o'i waith, 'Hen Gadair Freichiau,' 'Caingc y Delyn,' 'Carlo,' ac eraill. Traddododd ei ddarlith ar gerddoriaeth ar hyd a lled Cymru. Gwasnaethodd fel beirniad yn yr eisteddfodau, a dengys ei feirniadaethau ei fod yn meddu cymhwyster i'r gwaith. Bu galw mynych arno i arwain cymanfaoedd canu, ac ystyrir ef yn arweinydd cymeradwy. Cyfansoddodd lawer o farddoniaeth a cheir ei waith yn *Cofiant Tanymarian* ([W. J. Parry](#)).

Bu farw 10 Mai 1885, a chladdwyd ef ym mynwent capel Bethlehem, Talybont, Llanllechid.

## Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

## Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

W. J. Parry, *Cofiant Tanymarian* (Dolgellau 1906), 1886

*Y Cerddor*, Rhagfyr 1892

## Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [Edward Stephen \(Tanymarian\)](#)

## Delweddau

LIGC: [Tanymarian a'i wraig](#), Llyfr Ffoto T Llechid Jones Album, 12v.

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q28361442](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

